

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24

Chwefror 2023

Ar 13 Rhagfyr 2022 gosododd Llywodraeth Cymru ei **chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24** gerbron y Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'i argymhellion.

Tystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor mewn sesiynau craffu ar y gyllideb ar **12 Ionawr 2023**. Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn graffu, un gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ac un gyda Gweinidog yr Economi. Roedd swyddogion cymorth yn bresennol gyda'r naill Weinidog a'r llall. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y **Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd** a **Gweinidog yr Economi** fel ei gilydd, cyn y sesiynau. Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod mewn dwy bennod, y gyntaf ar faterion yn ymwneud â chylch gorchwyl y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r ail ar gylich gorchwyl Gweinidog yr Economi.



Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cyllid a ddaw yn lle cyllid Gwledig yr UE..... 6
- Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl sut mae'n addasu cynlluniau i gyfrif am y diffyg o £21 miliwn o'r cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE..... 6
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sut y cyfrifir amdanynt a pha fesurau rheoli a fydd yn cael eu defnyddio yn y Cynllun a ddaw yn ei le..... 7
- Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau wrth gefn ar gyfer gorwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig o ganlyniad i gyllid sydd wedi'i orymrwymo..... 7
- Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y cynlluniau a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a sut y maent wedi cael eu haddasu ar ôl ail-flaenoriaethu'r gyllideb yn y maes hwn..... 7
- Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd y £6.5m o gyllideb y Gweinidog Newid Hinsawdd yn llenwi'r bwlch yn y gyllideb a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a pha feysydd a ariennir fel arfer gan y Cynllun Datblygu Gwledig na fydd yn cael eu hariannu o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol mewn cyllid..... 7
- Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch beth yw gwerth y contract Cyswllt Ffermio newydd a hefyd roi manylion yr asesiad a wnaed i sicrhau y bydd y contract newydd yn caniatáu i'r gwasanaeth gefnogi trosglwyddiad llawn ffermwyr i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy..... 8
- Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gymuned ffermio ac ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Dylai'r Gweinidog barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad y gwaith monitro hwn chwe mis ar ôl i'r cynnydd mewn ffioedd ddod i rym ac yn rheolaidd ar ôl y dyddiad hwnnw..... 9
- Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dylai hyn gymryd sylw o hynt y Bil Bwyd

(Cymru) ac, os oes angen, dylai roi senarios yn dibynnu ar ganlyniadau tebygol gwahanol gyda hynt y Bil drwy'r Senedd..... 9

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor pryd bynnag y bydd cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu yng nghyllideb yr economi yn ystod 2023-24.....11

Argymhelliad 11. Yn sgil ei awgrym y bydd llai o arian mewn ystod o feysydd, felly byddant yn gallu gwneud llai, dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i fesur y gostyngiad o ran darparu adnoddau. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw faes o'i bortffolio os bydd gostyngiad o ran yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir, yn enwedig nifer y busnesau a gefnogir.11

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y data sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r cynllun cyflenwi manwerthu, yn enwedig data sy'n cael eu defnyddio i asesu effaith anwastad yr heriau economaidd presennol ar y sector.12

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effeithiau tebygol cyllideb ar dwristiaeth sydd â llai o adnoddau ac sy'n lleihau'r gwariant marchnata ar nifer yr ymwelwyr i Gymru....13

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod 2023-24 ar faint y Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth.....13

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw achos o ailffocysu neu ailbroffilio arian sy'n gysylltiedig â'r Warrant i Bobl Ifanc a dylai ysgrifennu at Aelodau gyda'i farn ar ddyfodol y Warrant yn ystod hydref 2023.....15

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflenwi manylion i'r ddau bwyllgor am sut mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gamau i gymell pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i gostau byw uwch.....16

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyhoeddi fersiwn derfynol ei strategaeth arloesi newydd ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.....17

- Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw effaith y bydd ei strategaeth arloesi newydd neu unrhyw gynlluniau cysylltiedig yn ei chael ar ariannu a llinellau yn y gyllideb.....17
- Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith i amcangyfrif ei gwariant ar fewnfuddsoddiad a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor. 18
- Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhedeg Safleoedd Rheoli Ffiniau.19
- Argymhelliad 21.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan gynnwys manylion y trafodaethau ar y mater rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.....19
- Argymhelliad 22.** Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cael arian gan Drysorlys y DU am wariant y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran perygl ynghylch paratoi i greu safleoedd rheoli ffiniau. Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o'r arian y mae wedi'i wario 'o ran perygl' ar Safleoedd Rheoli Ffiniau a faint o hynny sydd wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth y DU.....19

1. Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE

1. Mae **papur y Gweinidog** yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r un fethodoleg o ran darparu cyllid newydd yn lle cyllid yr UE yn yr Adolygiad o Wariant hwn â'r hyn a welwyd yn 2021/22 a 2022/23. Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â'r dull gweithredu hwn, gan ddadlau ei fod yn arwain at sefyllfa net o ran gwariant yr UE sy'n weddill ("*nets off outstanding EU spending*"). Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae Cymru wedi cael £222 miliwn yn llai na'r disgwyl (£85 miliwn yn llai yn 2022/23 a £137 miliwn yn llai yn 2021/22) ac yn nodi mai canlyniad parhau â'r dull hwn yn 2023/24 fydd colli £21 miliwn ychwanegol i Gymru.

2. **Dywedodd** y Gweinidog wrth yr Aelodau ei bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU yn rheolaidd ynghylch y diffyg a'r pwynt eu bod wedi addo cyllid yn lle cyllid yr UE yn llawn i Gymru. Aeth ymlaen i ddweud bod yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig eisiau ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, a bod hyn yn addawol, ac roedd hi'n gobeithio y gall pragmatiaeth gael ei ddefnyddio yma ac yn gobeithio y bydd Cymru'n gweld cyllid pellach. Ond aeth y Gweinidog ymlaen i egluro bod datrys anghydfod yn opsiwn o hyd, ac y gall Llywodraeth Cymru ystyried ei ddefnyddio yn y dyfodol.

3. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am yr hyn yr oedd wedi ei ddadflaenoriaethu yn sgil colli cyllid, **dywedodd hi**: "*We do know, unfortunately, that that will mean less investment in our farming sector and in our rural communities, but I haven't deprioritised, if you like; I've just used the money I've got to bring forward the new programme.*" Pan gafodd ei hannog i egluro hyn ymhellach, **dywedodd y Gweinidog**: "*We're using that money to adapt within the schemes. But, there is obviously less money.*"

4. Hoffai'r Aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ac unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r gwaith o ddefnyddio'r broses o ddatrys anghydfod.

5. Yn y cyfnod ansicr hwn, mae'r Aelodau'n teimlo ei bod hi'n hanfodol bod gan ffermwyr a chymunedau gwledig eglurder am y cyllid y byddant yn ei gael. Mae'r Aelodau'n poeni am effeithiau'r diffyg o £21m ar ffermwyr a chymunedau

gwledig a hoffent gael rhagor o fanylion am sut mae'r Gweinidog yn bwriadu addasu o fewn y cynlluniau yn sgil y gostyngiad.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cyllid a ddaw yn lle cyllid Gwledig yr UE.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl sut mae'n addasu cynlluniau i gyfrif am y diffyg o £21 miliwn o'r cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE.

Cyllid datblygu gwledig

6. Fe wnaeth **adolygiad Archwilio Cymru o gyllid datblygu gwledig** yn 2020 dynnu sylw at bryderon *“nad oedd agweddau pwysig ar ddyluniad, gweithrediad na goruchwyliaeth mesurau Llywodraeth Cymru i reoli'r rhaglen yn ddigon effeithiol i sicrhau gwerth am arian.”*

7. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru **wrth yr Aelodau** bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd gwaith Archwilio Cymru o ddifrif a'u bod yn gweithredu mesurau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ganddo. Aeth ymlaen i ddweud: *“There is a set of controls and measures in place now that looks at both the management of the grants and the awards, but also looks at then the evaluation and the process that happens afterwards ... I do think that we've done a huge amount of work over the last few years to address some of those issues.”*

8. Gyda'r pwysau sydd ar gyllidebau ar hyn o bryd, bydd sicrhau gwerth am arian yn bwysicach nag erioed. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o adroddiad Archwilio Cymru, ond hoffent gael rhagor o fanylion am newidiadau sydd wedi eu gwneud o ganlyniad i'r gwersi gafodd eu dysgu, a'r mesurau rheoli newydd sydd wedi eu rhoi ar waith.

9. Dywedodd y Gweinidog **wrth yr Aelodau** bod Llywodraeth Cymru wedi gorymrwymo cyllid gan £50 miliwn, er mwyn sicrhau bod pob ceiniog o'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i bodloni. Mae'r Aelodau'n bryderus ynglŷn â'r atebolrwydd hyn. Er eu bod yn deall bod y gorymrwymiad wedi'i wneud gan ragdybio na fydd yr holl gyllid yn cael ei hawlio, ac mae'n ffordd o sicrhau bod yr holl arian yn cael ei wario, hoffai'r Pwyllgor wybod beth yw cynlluniau wrth gefn y Llywodraeth os hawlir mwy o arian nag y maent wedi cyllidebu ar ei gyfer.

10. Mae papur y Gweinidog **yn dangos** bod gostyngiad o £8.9m yn y llinell wariant yn y gyllideb (BEL) ar gyfer y cynlluniau a ddaw yn lle Cynlluniau

Datblygu Gwledig, o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2022-23. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y gostyngiad hwn o ganlyniad i ymarfer ail-flaenoriaethu'r cabinet.

11. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod **cyfrifoldebau statudol** ac ymrwymiadau'n golygu mai ychydig iawn o hyblygrwydd oedd ganddi o fewn ei chyllideb. **Esboniodd** y bu'n rhaid i bob Gweinidog ddod o hyd i gyllid fel rhan o'r ymarfer ail-flaenoriaethu ac oherwydd natur gyfyngedig ei chyllideb, y llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer y cyllid a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig oedd un o'r ychydig leoedd y gallai ail-flaenoriaethu ohonynt. Aeth y Gweinidog ymlaen i **ddweud** ei bod yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ac y byddai £6.5m o gyllid ychwanegol yn y maes hwn mewn perthynas â chynlluniau coetiroedd o'r gyllideb Newid Hinsawdd.

12. Mae'r Aelodau'n poeni am effeithiau'r gostyngiad mewn gwariant ar gynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig. Yn wir, disgrifiodd y Gweinidog y cyllid hwn yn ei phapur fel cyllid sy'n darparu "cefnogaeth hanfodol i'n sectorau cynhyrchu a bwyd sylfaenol sydd wedi teimlo effeithiau Covid, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac, yn awr, yr argyfwng costau byw, ac maent yn parhau i deimlo'r effeithiau hyn."

13. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed y bydd y gyllideb Newid Hinsawdd yn cael ei defnyddio i lenwi rhywfaint o'r diffyg yn y gyllideb a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, mae gan y Cynllun Datblygu Gwledig nodau llawer ehangach na chynlluniau coetir. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch defnyddio'r £6.5 miliwn o gyllideb y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r effeithiau a ragwelir yn sgil y diffyg cyffredinol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sut y cyfrifir amdanynt a pha fesurau rheoli a fydd yn cael eu defnyddio yn y Cynllun a ddaw yn ei le.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau wrth gefn ar gyfer gorwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig o ganlyniad i gyllid sydd wedi'i orymrwymo.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y cynlluniau a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a sut y maent wedi cael eu haddasu ar ôl ail-flaenoriaethu'r gyllideb yn y maes hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd y £6.5m o gyllideb y Gweinidog Newid Hinsawdd yn llenwi'r bwlch yn y gyllideb a ddaw yn

Ile'r Cynllun Datblygu Gwledig a pha feysydd a ariennir fel arfer gan y Cynllun Datblygu Gwledig na fydd yn cael eu hariannu o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol mewn cyllid.

Cyswllt Ffermio

14. Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru dros yr haf, lle bu'r Aelodau yn trafod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda rhanddeiliaid. Roedd yr adborth ynghylch Cyswllt Ffermio yn dueddol o fod yn gadarnhaol, ond un o'r prif ddarnau o adborth a gafwyd yn y digwyddiad oedd bod angen i wasanaeth Cyswllt Ffermio fod yn addas at y diben i gyflawni ei rôl gynghori ehangach, os yw uchelgeisiau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy am gael eu cyflawni. Dywedodd rhanddeiliaid yn benodol y byddai angen adnoddau ac arbenigedd digonol ar y gwasanaeth.

15. Dywedodd y Gweinidog **wrth yr Aelodau** y bydd cytundeb Cyswllt Ffermio newydd yn dechrau ar 1 Ebrill eleni. Aeth ymlaen i dynnu sylw at y ffaith bod Cyswllt Ffermio wedi cael llawer o gefnogaeth a llawer o ddefnydd. Cytunodd hi: *"it's going to be very important as we take SFS and as we take our sustainable land management objectives forward."* Fodd bynnag, nid oedd gan y Gweinidog werth y contract newydd wrth law a gwnaeth addewid i roi gwybod i'r Pwyllgor am y wybodaeth honno.

16. Mae'r Aelodau'n cytuno y bydd angen i Cyswllt Ffermio gael yr adnoddau priodol i gefnogi ffermwyr wrth bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r Aelodau'n awyddus i weld y ffigur ar gyfer y contract newydd a'r asesiad a gynhaliwyd i amcangyfrif cost Cyswllt Ffermio a'r defnydd ohono dros dymor y contract newydd.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch beth yw gwerth y contract Cyswllt Ffermio newydd a hefyd roi manylion yr asesiad a wnaed i sicrhau y bydd y contract newydd yn caniatáu i'r gwasanaeth gefnogi trosglwyddiad llawn ffermwyr i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynyddu ffioedd

17. Mae NFU Cymru wedi **cyhuddo** Cyfoeth Naturiol Cymru o gynyddu ei ffioedd a thaliadau rheoleiddiol. Mae'n cynnwys enghreifftiau o gynnydd 10 gwaith yn fwy o ran cost ceisiadau newydd ar gyfer lledaenu dip defaid nad yw wedi cael ei ddefnyddio ar dir, a chynyddu cost trwyddedau newydd i alldynnu dŵr/cronni dŵr o £135 i £6,327.

18. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrth yr Aelodau mai'r rheswm am y cynnydd mewn costau oedd: *"NRW have not amended those charges for a very long time, and, therefore, the current charging regime does not cover their costs."* Aeth ymlaen i ddweud bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgynghori ar y newidiadau hyn ac ers amser maith, nid yw costau gweithgareddau i Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hanfod wedi cael eu hadlewyrchu yn y taliadau.

19. Er bod yr Aelodau yn deall bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gydbwyso ei gyllideb, maen nhw hefyd yn poeni bod y cynnydd mewn costau yn dod ar adeg anodd iawn i ffermwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro effaith y cynnydd mewn costau ar ffermwyr ac ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gymuned ffermio ac ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Dylai'r Gweinidog barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad y gwaith monitro hwn chwe mis ar ôl i'r cynnydd mewn ffioedd ddod i rym ac yn rheolaidd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Strategaeth fwyd

20. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad yn ei **Rhaglen Lywodraethu** i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol. Ym mis Ionawr, **ysgrifennodd** y Gweinidog at y Pwyllgor yn amlinellu'r cyfeiriad a meysydd a allai gael eu cwmpasu gan y Strategaeth. Yng nghyfarfod cyllideb y Pwyllgor dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau, er bod cyllideb llinell sylfaen gwerth £1.8 miliwn ar gyfer y strategaeth fwyd, roedd **Bil Bwyd (Cymru)** Peter Fox AS yn effeithio ar ei ddatblygiad gan mai'r un swyddog yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y ddau ohonynt.

21. Roedd yr Aelodau yn synnu i glywed mai dim ond un swyddog oedd yn gweithio ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol, yn enwedig gan ei fod yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Aelodau hefyd yn pryderu nad oes amserlen glir ar gyfer cyflawni'r strategaeth.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dylai hyn gymryd sylw o hynt y Bil Bwyd (Cymru) ac, os oes angen, dylai roi senarios yn dibynnu ar ganlyniadau tebygol gwahanol gyda hynt y Bil drwy'r Senedd.

2. Gweinidog yr Economi

Yr Economi

Y darlun economaidd am y flwyddyn i ddod

23. Ynghyd â'r gyllideb ddrafft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad gan ei Phrif Economegydd** a oedd yn cynnwys myfyrdodau di-flewyn-ar-dafod ynghylch yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd. Nodir yn yr adroddiad: *“Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod Cymru a'r DU yn wynebu dirwasgiad yn dilyn cyfnod lle mae safonau byw eisoes wedi gostwng mewn pedwar chwarter yn olynol”* ac *“Ar draws y DU, mae disgwyl i incwm cyfartalog aelwydydd leihau 4.3 y cant yn 2022-23 a 2.8 y cant yn y flwyddyn ganlynol. Byddai'r lleihad cronol o dros 7 y cant dros y ddwy flynedd yn ddigynsail.”*

24. Yn yr adroddiad, nodwyd bod disgwyl i chwyddiant aros uwchben 10 y cant yn ystod hanner cyntaf eleni a bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i'r gyfradd ddiweithdra gynyddu tua phwynt canran a hanner dros y 18 mis nesaf, a fyddai'n cyfateb i ffigur o tua 20,000 i 25,000 yn fwy o bobl ddi-waith yng Nghymru.

Cyllideb yr Adran

25. Dywedodd Gweinidog yr Economi **wrth yr Aelodau** fod cyllideb eleni yn her fawr iawn a rhybuddiodd: *“it will be an uncomfortable time for many people in the world of work, running businesses or working in those businesses, and it will be a difficult time for me and my department in facing up to those challenges.”*

26. Aeth ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau fod ganddynt setliad cyllideb nad yw'n darparu symiau sylweddol o arian ychwanegol mewn termau real, a bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu blaenoriaethu'r GIG, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol, gan gynnwys addysg. Fe wnaeth y Gweinidog **nodi hefyd** fod colli cyn-gronfeydd yr UE, a'r ffaith nad ydyn nhw'n cael eu disodli yn nhermau tebyg at ei debyg, yn broblem go iawn i'w adran.

27. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau ei fod, ochr yn ochr ag ymrwymadau cyfalaf, yn ceisio blaenoriaethu rhywfaint o'r gwariant y gallant barhau i'w gynnal mewn rhaglenni cyflogadwyedd a'i fod yn ceisio blaenoriaethu sgiliau fel rhan sylweddol o hynny.

Busnes a chymorth cyflogaeth

28. Dywedodd y Gweinidog **wrth yr Aelodau** y byddai effeithiau'r dirwasgiad yn anwastad ar draws yr economi. Dywedodd na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu achub pob un busnes fydd yn wynebu cyfnod anodd yn y dirwasgiad a byddai angen iddynt gydbwysu'r camau ymyrryd i gefnogi busnesau sydd wedi'u taro gan y dirwasgiad gyda hybu meysydd twf o fewn yr economi.

29. Esboniodd y Gweinidog na fyddai cydbwysu hyn yn syml: *"we will have less money in a range of areas, so we will be able to do less, and that's unavoidable"*. Aeth ymlaen i ddweud *"It means that there are fewer businesses that we can support; there are fewer businesses we can invest in to help them to grow, and there is less we're going to be able to do than I would have liked to have done, for example, in promoting trade."*

30. Dywedodd y Gweinidog, oherwydd natur anwastad ac anrhagweladwy'r dirwasgiad, nad oedd modd rhagweld sut yn union y byddai angen iddo ystwytho a blaenoriaethu ei gyllideb. Rhoddodd enghraifft y rhaglen gyflogaeth React+ sy'n cael ei arwain gan y galw felly byddai ei gyllideb yn ddibynnol ar y farchnad gyflogaeth. Aeth ymlaen i roi'r enghraifft y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymateb ac ystwytho yn y ffordd mae'n darparu cymorth economaidd oherwydd nad oes sicrwydd mathemategol ynglŷn â pha feysydd o'r economi fydd yn cael eu taro galetaf.

31. Gan y bydd gan y Gweinidog lai o arian ar gyfer ystod o feysydd yn ei bortffolio, hoffai'r Aelodau dynnu sylw at y ffaith y bydd yn gwbl hanfodol i'w adran gyflawni'r gwerth mwyaf posibl am arian o wariant. Mae'r Aelodau'n cytuno y bydd yr ansicrwydd economaidd presennol yn ei gwneud hi'n anodd i'r Gweinidog ragweld yn union pa feysydd fydd angen cefnogaeth wedi'i ffocysu yn y flwyddyn sydd i ddod. Byddai'r Aelodau felly'n croesawu diweddariadau rheolaidd ynglŷn ag ail-flaenoriaethu arian a meysydd y mae'r Gweinidog yn teimlo y bydd angen cymorth arnynt trwy gydol y flwyddyn.

32. Gan gydnabod ei bod yn anodd rhagweld pa gymorth yn union fydd ei angen, hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth i fesur y gostyngiad o ran darparu adnoddau i feysydd penodol ym mhortffolio'r Gweinidog.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor pryd bynnag y bydd cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu yng nghyllideb yr economi yn ystod 2023-24.

Argymhelliad 11. Yn sgil ei awgrym y bydd llai o arian mewn ystod o feysydd, felly byddant yn gallu gwneud llai, dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i

fesur y gostyngiad o ran darparu adnoddau. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw faes o'i bortffolio os bydd gostyngiad o ran yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir, yn enwedig nifer y busnesau a gefnogir.

Cymorth Sectoraidd a Rhanbarthol

Manwerthu

33. Ym mis Rhagfyr 2022, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Consortiwm Manwerthu Cymru ynghylch effeithiau parhaus costau byw cynyddol ar eu diwydiant. Dywedodd Sara Jones **wrth yr Aelodau**: *“As you can imagine, retail is very much in the eye of the storm once again after the two very difficult trading years during the pandemic; a third year now that’s proving equally challenging”*. Dywedodd: *“Consumer confidence is at the lowest level I think it’s ever been since records have been running—even lower than the 2008 recession, and that’s obviously filtering through into consumer demand and spending decisions.”*

34. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad sefyllfa'r sector manwerthu** ym mis Mawrth 2022. Mae **papur dystiolaeth** Llywodraeth Cymru yn nodi mai bwriad y Gweinidog yw cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer y sector yn y misoedd nesaf.

35. Dywedodd y Gweinidog **wrth yr Aelodau** fod manwerthwyr yn gweld bod yr effeithiau ar y darlun economaidd presennol yn anwastad. Dywedodd fod yna wahaniaeth rhwng rhai canol dinasoedd a threfi a bod rhai manwerthwyr y tu allan i'r dref wedi gwneud yn well nag eraill hefyd. O ganlyniad i hyn, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr hyn a ganlyn: *“looking at the data that is as up to date as possible about consumer trends and habits and how that shapes what we’re looking to do, and the overall pictures around consumer confidence and consumer behaviour as we look to the future.”*

36. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld y cynllun cyflawni ar gyfer manwerthu. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb yn y ffigurau y mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio i asesu pa mor anwastad yw effaith yr hinsawdd economaidd bresennol ar fanwerthu.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y data sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r cynllun cyflenwi manwerthu, yn enwedig data sy'n cael eu defnyddio i asesu effaith anwastad yr heriau economaidd presennol ar y sector.

Twristiaeth

37. Mae'r llinell wariant yn y gyllideb o ran adnoddau twristiaeth wedi cael ei leihau £1.3 miliwn o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022-23. **Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor** mai ystyr hyn yw y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth leihau'r hyn y bydden nhw wedi gallu ei wneud fel arall. Golygai hyn fod Llywodraeth Cymru yn annhebygol o gael marchnata i'r un graddau ag y byddai wedi ei gael fel arall ar gyfer rhai o'n marchnadoedd Ewropeaidd drwy'r flwyddyn nesaf.

38. Hefyd, **dywedodd** y Gweinidog: *"We're also going to have to look at what we do when it comes to the tourism investment fund. We're still maintaining that at the same size and scale, but there will be challenges."*

39. Mae'r Aelodau'n poeni am effaith y gostyngiad o ran marchnata ar gyfer twristiaeth yng Nghymru a'r heriau posibl o ran cynnal y Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ddadansoddiad sydd wedi'i wneud ynghylch y ddau fater.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effeithiau tebygol cyllideb ar dwristiaeth sydd â llai o adnoddau ac sy'n lleihau'r gwariant marchnata ar nifer yr ymwelwyr i Gymru.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod 2023-24 ar faint y Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth.

Sgiliau

Effaith costau byw ar sgiliau

40. Ym mis Rhagfyr 2022, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am **gostau byw a'r Warrant i Bobl Ifanc**. Ar 20 Rhagfyr, **ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog** i godi rhai o'r materion a glywodd.

41. Gan i'r llythyr gael ei anfon yn ddiweddar, nid yw'r Gweinidog wedi ateb eto. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau am achub ar y cyfle hwn i ailadrodd rhai o'r materion allweddol a godwyd sy'n berthnasol i'r Warrant i Bobl Ifanc a'r gyllideb:

- Clywodd y Pwyllgor bryderon nad oedd y cymorth yn cadw i fyny â chostau byw, ac o ganlyniad i hynny, y gallai rhai pobl ifanc fod yn

gadael rhaglenni galwedigaethol ac yn mynd i waith sgiliau isel er mwyn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol.

- Mae lleoliad daearyddol yn cael effaith fawr ar bwysau costau byw. Gall costau cynyddol trafnidiaeth gael effaith niweidiol ar rai dysgwyr o ardaloedd gwledig.
- Mae costau byw yn effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc. Mae darparwyr hyfforddiant yn dweud eu bod yn gorfod darparu mwy a mwy o gymorth, yn enwedig o ran iechyd meddwl, ar eu cost eu hunain.

42. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb i'w lythyr at y Gweinidog ynghylch effaith costau byw ar sgiliau maes o law.

Gwarant i Bobl Ifanc

43. **Dywedodd** y Gweinidog wrth y Pwyllgor y cafodd y **Warrant i Bobl Ifanc** ei sefydlu i ddechrau gan ragweld cynnydd mawr mewn diweithdra o ganlyniad i'r Pandemig. Fodd bynnag, gan nad oedd y diweithdra disgwylidig wedi digwydd, **dywedodd** y Gweinidog fod targed y rhaglen wedi newid, gan ddweud:

“For young people and the guarantee and the offer that’s made in that, it’s to make sure that we don’t leave people behind and that we give people opportunities to make sure that they can access the labour market. Our bigger challenges are actually those people who are further away from the labour market. It’s why there’s more focus on the work of Jobs Growth Wales+ to make sure that 16 and 17-year-olds get opportunities to access the labour market and the support we have for them to do that”

44. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod pobl ifanc yn teimlo'n fwy ansicr ynglŷn â'u dyfodol nawr na 10 mlynedd yn ôl a'i fod o'r farn bod y Warrant i Bobl Ifanc yn dal i fod yn bwysig iawn, iawn. Oherwydd hyn, dywedodd y Gweinidog y byddai'n diogelu'r rhaglen a'r ddarpariaeth sgiliau sydd ynddi, ond dywedodd hefyd: *“we’re doing that against the backdrop where we’re going to lose about £50 million a year in the funding we used to get from EU funds for employability programmes.”*

45. **Dywedodd** y Gweinidog y bydd y Warrant i Bobl Ifanc yn parhau i fod yn ymrwymiad iddo mewn cyllidebau yn y dyfodol. Ond dywedodd hefyd: *“But*

what I can't do is give a cast-iron guarantee that there will be absolutely zero impact, if the broader budget position doesn't improve."

46. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yn nyfodol y Warant i Bobl Ifanc a hoffent gael gwybod sut mae pwysau cyllidebol yn ymwneud â'r rhaglen yn cael eu rheoli trwy 2023-24. Byddai'r Aelodau hefyd yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y Warant i Bobl Ifanc yn nhymor yr hydref.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw achos o ailffocysu neu ailbroffilio arian sy'n gysylltiedig â'r Warant i Bobl Ifanc a dylai ysgrifennu at Aelodau gyda'i farn ar ddyfodol y Warant yn ystod hydref 2023.

Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant ôl-16

47. Mae yna nifer o opsiynau ar gyfer cymorth ariannol ar gael i gefnogi a chymhell dysgwyr i aros mewn addysg ôl-16. Mae'r rhain yn cynnwys **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (EMA) a **grantiau dysgu**. Gall y rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen **Twf Swyddi Cymru+** gael lwfans hyfforddi wythnosol, a ceir **isafswm cyflog i brentisiaid** (er mai Llywodraeth y DU sy'n gosod hyn). Bu'r Pwyllgor yn trafod y cymorth a oedd ar gael o dan raglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant yn ystod ein gwaith ar gostau byw a sgiliau.

48. Dywedodd y Gweinidog **wrth yr Aelodau** bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud yr hyn a ganlyn gyda'r cymorth hwn: *"to make sure that post-16 education is a real option, as opposed to an illusion, for a number of people in different communities"*. Aeth ymlaen i ddweud mai un o'u heriau mwyaf oedd gwneud yn siŵr fod pobl ifanc yn gweld nid dim ond prentisiaeth neu gwrs hyfforddi, ond gyrfa fyddai'n rhoi boddhad – nid yn ariannol yn unig, ond am yr hyn mae pobl eisiau ei wneud. **Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau** fod llawer o'r cymorth hwn yn gwestiwn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg mewn gwirionedd, gan mai rhaglenni gwariant uchel fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yw'r rhain, sy'n cael eu hariannu o'i gyllideb ef.

49. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog ei bod yn bwysig cefnogi pobl ifanc i barhau i addysg ôl-16. Mae gan y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddiddordeb yn y maes gwaith hwn a hoffent glywed mwy am y sgysiau rhwng Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar ddyrannu cyllid i gymorth ôl-16 yn sgil pwysau costau byw. O'r herwydd, mae'r ddau bwyllgor wedi gwneud argymhelliad ar y cyd ar y mater.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflenwi manylion i'r ddau bwyllgor am sut mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gamau i gymhell pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i gostau byw uwch.

Ymchwil ac Arloesi

50. Mae **papur Llywodraeth Cymru yn dweud:** *"Bydd y strategaeth arloesi yn cael ei lansio ddechrau 2023, a bydd yn cynnwys rhagor o fanylion am ein blaenoriaethau ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a'n hymrwymyiadau cyllid", ond "Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo i ariannu'r Strategaeth Arloesi newydd ym mlwyddyn ariannol 23-24".*

51. Mae **cyflwyniad** y Sefydliad Ffiseg i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn dweud nad yw Cymru'n cadw i fyny gyda buddsoddiad gwledydd eraill y DU yn y maes ymchwil, datblygu ac arloesi. **Dywedodd** Prifysgolion Cymru nad oedd cyllideb 2022-23 yn mynd i'r afael â chymorth craidd ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi, sy'n arwain at golli cyfle i fanteisio ar y cynnydd mawr mewn cyllid cystadleuol yn y DU.

52. Eglurodd y Gweinidog yr hyn a ganlyn, yn sgil peidio â darparu cyllid yn lle cyllid yr UE mewn modd tebyg at ei debyg: *"I have lost £50 million for employability programmes, I have lost money that would otherwise have gone into the innovation budget directly".* Aeth ymlaen i ddweud *"That's having a direct impact on higher and further education",* ac *"I'm afraid we've got people who are unlikely to carry on in those research-funded posts in higher education in the new financial year."*

53. Eglurodd y Gweinidog:

"What we are trying to do in our innovation strategy is reflect and take on board that honest truth, and at the same time, to say, 'This is how we need to draw together and have a more coherent whole from the Government'. It's how and why we need to work right across our system, with private sector research partners, as well as higher and further education. We need to be much better at securing money from UK funding sources."

54. Fe wnaeth y Gweinidog **grynhoi** pwrpas y strategaeth arloesi gan ddweud: *“will both try to give us a framework for where we see our major strengths and opportunities in Wales, so that we will be able to set out, ‘This is our view on where Wales can be really successful, and this is how and where we want public money to go’, and at the same time working with those sectors to make sure that we get a much better deal out of UK funding sources.”*

55. Mae'r Aelodau'n poeni am adborth gan randdeiliaid nad oedd Cymru'n cadw i fyny â gwledydd eraill y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, a rhybuddion cysylltiedig y gallai Cymru golli cyfleoedd o ganlyniad i hynny. Er bod yr Aelodau yn deall bod cyllideb y Gweinidog yn dynn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i Gymru osgoi cwmpo ar ei hôl hi o ran ymchwil ac arloesi. O'r herwydd, mae'r Aelodau o'r farn bod yn rhaid blaenoriaethu cwblhau strategaeth arloesi gref o ansawdd uchel.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyhoeddi fersiwn derfynol ei strategaeth arloesi newydd ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw effaith y bydd ei strategaeth arloesi newydd neu unrhyw gynlluniau cysylltiedig yn ei chael ar ariannu a llinellau yn y gyllideb.

Masnach

56. Mae'r **gyllideb** ddrafft yn gosod y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi ar £4.192 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o hanner miliwn o bunnoedd o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022-23.

57. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau, tra byddai Llywodraeth Cymru yn dal i gael rhaglen sylweddol o gymorth ar gyfer masnach, byddai'r gostyngiad yn golygu na fyddant yn gallu ehangu'r cymorth sydd ganddynt i wahanol farchnadoedd.

58. *“Tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan”* yw un o'r tri uchelgais craidd a nodir yn **Strategaeth Ryngwladol** Llywodraeth Cymru. Tra bod £4 miliwn o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddiad yn cael ei **ddyrrannu** i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Allforio, nid oes dyraniad penodedig ar gyfer mewnfuddsoddiad.

59. Esboniodd y Gweinidog mai'r rheswm am hyn oedd bod llawer o weithredoedd y Llywodraeth yn gyrru mewnfuddsoddiad. Un o'r enghreifftiau a roddodd y Gweinidog oedd sut y gall cymorth i fusnesau helpu i yrru mewnfuddsoddiad. Dywedodd wrth yr Aelodau:

"we support opportunities to grow businesses. Some of those are businesses that are here already, some of those businesses are foreign owned, and some of those are new business opportunities for new inward investment. Now, that won't show up in the export trade and investment budget line, and it certainly won't show up in the export action plan budget line."

60. Er bod yr Aelodau'n deall y gall mewnfuddsoddiad gael ei yrru gan lawer o bolisiau a rhaglenni'r Llywodraeth, mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn anodd iawn asesu llwyddiant hyn heb ddeall faint o arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario i ddenu mewnfuddsoddiad. O'r herwydd, mae'n eithriadol o anodd craffu ar un o uchelgeisiau craidd y Strategaeth Ryngwladol.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith i amcangyfrif ei gwariant ar fewnfuddsoddiad a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor.

Safleoedd Rheoli Ffiniau

61. Nid yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd rheoli ffiniau. Mae **papur** y Gweinidog yn nodi mai'r rheswm am hyn yw bod y cynnydd i ddatblygu safleoedd rheoli ffiniau wedi cael ei 'lesteirio' o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i adolygu'r Model Gweithredu Targed. Mae papur y Gweinidog hefyd yn dweud na fydd penderfyniadau ynghylch y cyfleusterau sydd eu hangen i wasanaethu porthladdoedd Sir Benfro yn cael eu gwneud nes bydd y Model Gweithredu Targed wedi cael sêl bendith. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU i ariannu costau adeiladu hanfodol safleoedd rheoli ffiniau.

62. Yn sesiwn y Pwyllgor ar y gyllideb, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau: "we have had some money come across from the UK Treasury for money that we'd spent at risk on getting ready to create border control posts." Aeth ymlaen i egluro: "the challenges [with BCPs] are around the running costs, and the running costs are, at least in part, dependent on what the operating model is going to be: what we're going to be checking for, how and why." Crynhodd hyn drwy ddweud: "The running costs are less certain around how they will be

covered by the UK Treasury or otherwise. And if that is an extra pressure on the Welsh Government budget, it is not something that is going to be inconsequential.”

63. Mae'r Aelodau yn pryderu ynghylch yr ansicrwydd yn ymwneud â datblygu safleoedd rheoli ffiniau yng Nghymru. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried o ran pwy fydd yn rhedeg y safleoedd rheoli ffiniau a'r goblygiadau cost posibl ar gyfer yr opsiynau hynny ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac ar fusnesau sy'n eu defnyddio. Hefyd, hoffai'r Aelodau gael eglurder o ran faint o arian sy'n cael ei ad-dalu gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru am wariant 'o ran perygl' ar safleoedd rheoli ffiniau yn 2022-23.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhedeg Safleoedd Rheoli Ffiniau.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan gynnwys manylion y trafodaethau ar y mater rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 22. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cael arian gan Drysorlys y DU am wariant y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran perygl ynghylch paratoi i greu safleoedd rheoli ffiniau. Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o'r arian y mae wedi'i wario 'o ran perygl' ar Safleoedd Rheoli Ffiniau a faint o hynny sydd wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth y DU.